# PWYLLGOR IAITH: DYDD LLUN, 20 MEHEFIN 2022

**YN BRESENNOL:**

**Y Cynghorwyr:** Eirwyn Williams, Elfed Wyn ap Elwyn, Gruffydd Williams, Jina Gwyrfai, Llio Elenid Owen, Menna Baines, Meryl Roberts, Olaf Cai Larsen, Richard Glyn Roberts, Sasha Williams

**Swyddogion:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Gwenllian Mair Williams (Ymgynghorydd Iaith), Llio Mai Dafydd (Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg). Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) a Rhodri Marc Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**ERAILL A WAHODDWYD:**
Cynghorydd Elwyn Jones (Cadeirydd y Cyngor), Richard Medwyn Hughes (Is-Gadeirydd y Cyngor) a Menna Jones (Aelod Cabinet Cefnogaeth Corfforaethol)

Eitem 8: Alun Gwilym Williams (Uwch Reolwr Busnes Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)
Eitem 9: Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)

1. **ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn fel Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2022/23.

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Y Cynghorydd Llio Elenid Owen fel Is-Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2022/23.

3. **YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Y Cynghorwyr Alan Jones Evans, Gwynfor owen a Menna Jones (aelod Cabinet Cefnogaeth Corfforaethol).

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

5. **MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw fater brys.

6. **COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 7 Ebrill 2022 fel rhai cywir.

7. **ADRODDIAD BLYNYDDOL AR WEITHREDIAD SAFONAU'R GYMRAEG**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Iaith, a thynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Eglurodd yr Ymgynghorydd Iaith fod yr adroddiad yma wedi cael ei greu yn sgil Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sydd yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor yn dilyn terfyn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, cyn 30 Mehefin 2022.

- Nodwyd hefyd mai ei bwrpas oedd crynhoi ac egluro sut mae'r Cyngor yn gweithredu a chydymffurfio â'r safonau iaith.

- Mynegwyd balchder fod ffigyrau'r adroddiad yn dangos fod 99.1% o weithlu'r Cyngor yn meddu â sgiliau Cymraeg. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys unrhyw berson sydd ag unrhyw fath o sgiliau ieithyddol Cymraeg - bod yn rhugl, yn rhannol rugl neu dim ond yn deall ychydig ar yr iaith.

- Datganwyd fod 91% o holl staff y Cyngor yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd. Mae'r gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig iawn i'r Cyngor, ac roedd yr Ymgynghorydd Iaith yn falch fod y ffigwr yma yn un uchel. Er hyn, derbyniwyd fod modd cynyddu'r ffigwr hwn. Un ffordd o geisio gwneud hyn yn bresennol ydi drwy gynnig hyfforddiant ar yr iaith Gymraeg i'r staff hynny sydd ddim yn cyrraedd eu gofynion ieithyddol eto, er mwyn eu helpu i ddatblygu'r sgiliau.

- Soniwyd fod 909 o swyddi wedi cael eu hysbysebu ar wefan y Cyngor yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf a oedd yn nodi fod sgiliau'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl.

- Eglurwyd fod nifer o ddatblygiadau wedi cael eu cwblhau dros y flwyddyn er mwyn sicrhau fod gwasanaethau dwyieithog yn gallu cael ei gynnig yn effeithiol:

    - Mae'r timoedd Cyfieithu a Gwasanaethau Democrataidd wedi bod yn brysur dros y flwyddyn yn datblygu cyfleusterau er mwyn gallu cynnal cyfarfodydd aml-leoliad. Mae arbrofi wedi cael ei gwblhau er mwyn sicrhau fod cyfarfodydd yn gallu cael eu cynnal gyda phobl yn mynychu yn y siambrau a rhai pobl yn mynychu yn rhithiol a hynny gan sicrhau fod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn gallu parhau yn ddi-rwystr.

    - Mae treialon wedi cael eu cynnal gydag adrannau'r Cyngor ar gyfer system hunanasesu newydd. Mae'r system yma yn gofyn iddyn nhw gwblhau hunanasesiad er mwyn gweld i ba raddau maen nhw yn cydymffurfio â safonau'r iaith. Mae hyn yn galluogi i'r adran Cefnogaeth Gorfforaethol wneud Hunanasesiad Corfforaethol o gydymffurfiaeth y Cyngor a'r safonau iaith ar gyfer ei gyflwyno i'r Comisiynydd Iaith.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau'r pwyllgor holi cwestiynau:

- Holwyd os oes modd edrych ar ganran o niferoedd staff y Cyngor sydd yn cyrraedd lefel dynodiad iaith eu swydd dros dreigl amser, er mwyn gallu ei gymharu gyda'r blynyddoedd diwethaf.

- Gofynnwyd a oedd modd cysylltu gydag asiantaethau a chyrff eraill sydd yn cydweithio â'r Cyngor pan fydd methiannau ieithyddol yn digwydd ar eu rhan. Holwyd hefyd os oes modd gwneud hyn ar lefel uchel er mwyn sicrhau fod safonau ieithyddol ein partneriaid yn ddigonol.

- Mynegwyd barn fod tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod safon sgiliau iaith yn cynyddu wrth i raddfeydd cyflog gynyddu ac felly yn gallu creu hollt cymdeithasol. Cyfeiriwyd yn benodol at wahaniaeth sgiliau rhwng gwahanol swyddi mewn lleoliadau fel ysgolion. .
- Teimlwyd y dylai'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle fod yn hanfodol ar gyfer pob swydd oherwydd mewn rhai sefyllfaoedd mae'r iaith gyfathrebu yn newid o'r Gymraeg i'r Saesneg yn naturiol os oes un (neu fwy) o'r staff yn ddi-gymraeg.

Mewn ymateb i'r pwyntiau uchod, nododd yr Ymgynghorydd Iaith

- Nad oes modd cymharu niferoedd staff sydd yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd ar hyn o bryd oherwydd nad ydi'r data wedi cael eu casglu yn yr un dull dros y blynyddoedd diwethaf yn sgil y pandemig. Er hyn, fe fyddai'n ddiddorol iawn gallu cymharu'r ffigyrau hyn o flwyddyn i flwyddyn a gallu gweld os ydi'r ffigwr yn mynd yn uwch neu'n is. Mae'r Ymgynghorydd Iaith yn ffyddiog bydd modd gwneud hyn o'r adroddiad nesaf ymlaen oherwydd erbyn hynny bydd y data wedi cael ei gasglu yn yr un dull am ddwy flynedd yn olynol. Mae'r Ymgynghorydd Iaith hefyd yn ffyddiog y bydd y ffigwr perthnasol o 91% yn cynyddu eleni wrth i fwy o staff y Cyngor gwblhau hunanasesiad iaith ac wrth i fwy o staff fynychu hyfforddiant ieithyddol.

- Bod materion o fethiannau ieithyddol gan ein partneriaid ac asiantaethau eraill yn cael eu codi gan staff y Cyngor. Yn ddibynnol o amgylchiadau'r methiant ieithyddol, bydd swyddogion yn ei grybwyll mewn cyfarfodydd gyda'r bobl berthnasol neu yn cysylltu yn uniongyrchol a'r asiantaeth/partner. Mae cynnwys methiannau o'r fath mewn adroddiad fel yr un hwn yn tynnu sylw'r Comisiynydd Iaith a fydd wedyn yn rhoi pwysau ar yr asiantaeth i wella eu safonau iaith. Nodwyd fod modd rhoi protocol yn ei le er mwyn sefydlu proses o gysylltu gyda phartneriaid yn effeithiol pe bai methiant ieithyddol yn digwydd

- Bod rhywfaint o wirionedd yn y ffaith bod sgiliau ieithyddol staff yn cynyddu wrth i lefelau cyflog gynyddu, yn enwedig sgiliau ysgrifenedig a darllen a deall. Gellir esbonio hynny i ryw raddau gan anghenion y swyddi – hynny yw byddai angen sgiliau ieithyddol uwch ar lefel rheolwr oherwydd yr angen i gyflwyno adroddiadau i bwyllgorau ac ati. Gan nad oes yr un angen efo swyddi ar lefelau is, mae'n debyg bod sgiliau ieithyddol yr unigolion yn is yn gyffredinol. Ond tynnodd yr Ymgynghorydd Iaith sylw hefyd at y ffaith bod cynnig cyfleoedd hyfforddiant cynhwysfawr yn rhan allweddol i'r prosiect dynodiadau iaith.

- Bod pob swydd sydd yn cael ei hysbysebu ar wefan y Cyngor yn nodi fod sgiliau Cymraeg yn hanfodol (nid yn ddymunol). Dim un swydd yn cael ei hysbysebu gyda gofynion iaith dymunol. Yr hyn sydd yn amrywio ydi'r lefel benodol o sgiliau sydd yn cael ei dynodi ar gyfer y swydd. Cyfeiriodd yr Ymgynghorydd Iaith hefyd at yr heriau sydd yn wynebu'r Cyngor o ran recriwtio. Hefyd, nodwyd bod disgwyliad clir bod unrhyw weithiwr sydd yn cael eu penodi ond nad ydynt yn cyrraedd gofyn iaith eu swyddi yn dilyn hyfforddiant ac yn gweithio i gyrraedd y lefelau ieithyddol hynny dros amser.

**PENDERFYNWYD**

- Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd a cymeradwyo'r adroddiad i gael ei gyhoeddi erbyn y terfyn amser, 30 Mehefin 2022.

8. **POLISI IAITH A GWEITHAREDDAU HYBU'R GYMRAEG: ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Reolwr Busnes yr adran, a thynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Eglurwyd fod yr adran yn dilyn Fframwaith Strategol Olynol o'r enw 'Mwy na Geiriau' sydd yn gosod gofynion ar yr adran i sicrhau fod gofal ar gael i drigolion y Sir drwy gyfrwng y Gymraeg heb iddyn nhw orfod gwneud cais amdano.

- Adroddwyd mai un o heriau mwyaf yr adran yn ddiweddar yw recriwtio staff o'r newydd. Mae hyn yn broblem genedlaethol, ac o fewn y sir mae rhai ardaloedd yn fwy anos nag eraill i recriwtio staff. Yn ogystal â hyn, mae rhai swyddi penodol, megis Therapyddion Galwedigaethol yn anodd eu llenwi gan fod angen sgiliau arbenigol yn ogystal â sgiliau Cymraeg.

- Manylwyd ar faes arbenigol iawn mae'r adran yn ymwneud ag o sef y cyflwr Dementia. Mae ymchwiliadau bellach yn dweud ei fod yn hollbwysig i gleifion dderbyn gofal yn yr iaith maent yn teimlo mwyaf cyfforddus yn ei ddefnyddio, gan fod hyn yn gwella eu llesiant. Yn dilyn hyn mae'r adran yn gweithio i ddatblygu unedau Dementia mewn tai gofal, staff cefnogol arbenigol y cyflwr a thechnoleg newydd i gefnogi pobl sydd eisiau aros yn eu cartref eu hunain.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau'r pwyllgor holi cwestiynau:

- Gofynnwyd a oes modd sicrhau fod gofal drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael i bobl sydd yn dioddef o gyflwr Dementia o fewn y sector preifat.

- Holiwyd a oedd yr adran wedi gorfod ystyried hysbysebu am swyddi ble nad oedd y Gymraeg yn hanfodol er mwyn denu ymgeiswyr sydd yn meddu â'r sgiliau arbenigol perthnasol.

- Holiwyd a oes yna broses gan yr adran i geisio paru cleifion gyda gofalwyr sydd yn gallu darparu gofal yn unol â dewis iaith y claf, yn enwedig o gofio nad ydy pob claf angen gofal drwy gyfrwng y Gymraeg

- Gofynnwyd a oes yna fwriad i gynnig gofal drwy gyfrwng y Gymraeg y tu hwnt i Wynedd ar hyn o bryd, ac os ydi'r gyllideb ar gael er mwyn gallu darparu gofal yn effeithiol.

Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Busnes:

Bod sicrhau gofal trwy'r Gymraeg i gleifion o fewn y sector breifat yn heriol iawn gan fod gan bob claf yr hawl i ddewis ble maent yn derbyn eu gofal. Dyma'r rheswm pam fod yr adran mor awyddus i'r Cyngor gynnig a darparu gofal drwy'r Gymraeg.

- Cadarnhawyd bod pob ymdrech yn cael ei wneud i baru cleifion gyda gofalwyr sydd gyda sgiliau ieithyddol addas. Gall hyn fod yn heriol ar brydiau, yn enwedig pan fo claf angen gofal brys.

- Mynegwyd bwriad i ddatblygu'r cyfleoedd all-sirol o dderbyn gofal drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd fod y cyfleon hyn yn gyfyngedig ar hyn o bryd ond mae Gwynedd yn arwain y ffordd i annog siroedd eraill drwy'r fforwm 'mwy na geiriau'.

- Eglurwyd bod bwriad i drio dennu gweithwyr proffesiynol e.e. Gweithwyr Cymdeithasol a Therapyddion sydd wedi symud i ffwrdd o'r ardal yn nôl i Wynedd i fyw ac i weithio er mwyn cryfhau y ddarpariaeth yng Ngwynedd.

**PENDERFYNWYD**

- Derbyn yr adroddiad gan nodi sylwadau a dderbyniwyd.

9. **POLISI IAITH A GWEITHGAREDDAU HYBU'R GYMRAEG: ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth yr adran, a thynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Eglurwyd fod yr adran yma, yn debyg i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn dilyn Fframwaith Strategol Olynol 'Mwy na Geiriau'.

- Mae'r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar yn cydweithio yn agos gyda CWLWM, sef 5 sefydliad arweiniol cenedlaethol gofal plant, er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg ar draws lleoliadau gofal plant o fewn y Sir. Mae hyn yn aml iawn yn arwain at brosiectau newydd sydd yn cael eu hybu gan y 5 sefydliad megis podlediad newydd gan y Mudiad Meithrin gyda chymorth Nia Parry o'r enw 'Baby Steps Into Welsh' sydd yn helpu plant a rhieni i ddysgu'r iaith. Mae'r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar hefyd yn elwa o gydweithio gyda CWLWM gan fod Cynllun Croesi'r Bont gan y Mudiad Meithrin yn pontio dosbarthiadau meithrin yn ieithyddol, ac mae 11 cylch o fewn y sir yn derbyn cefnogaeth o'r fath.

- Adroddwyd fod yr adran hefyd yn hybu'r Gymraeg yn annibynnol mewn sawl ffordd. Mae grantiau o £100 yn cael ei gynnig i warchodwyr plant preifat di-gymraeg er mwyn prynu adnoddau Cymraeg perthnasol. Yn ogystal â hyn, mae sawl tîm o fewn yr adran yn defnyddio cwrs rhiantu 'FRIENDS' ac wedi llwyddo i gyfieithu'r cwrs i'r Gymraeg ar gyfer rhieni'r Sir.

- Nodwyd fod dim modd cael lleoliad gofal plant addas o fewn y sir ar gyfer pob plentyn, yn aml am resymau diogelwch. Os na fydd lleoliad cyfrwng Cymraeg ar gael i'r plentyn, bydd yr adran a'r Gweithwyr Cymdeithasol yn parhau i ymweld a chysylltu â'r plant yn yr iaith Gymraeg er mwyn helpu eu datblygiad ieithyddol.

- Esboniwyd fod yr adran yn arwain 55 o ddarparwyr Addysg Feithrin ar hyn o bryd sydd yn derbyn cefnogaeth gan Athrawes Blynyddoedd Cynnar i gynorthwyo gydag addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymfalchïwyd yng Nghynllun Dechrau'n Deg, sydd yn gwasanaethu mewn rhannau difreintiedig o fewn y Sir, ac yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg i blant 2 oed. Mae 12 lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg o fewn y Sir ar hyn o bryd.

- Amlygwyd fod gwaith yn cael ei gwblhau i hybu'r Gymraeg ar gyfer plant hŷn hefyd megis creu a datblygu Ap Gwobr Dug Caeredin ar gyfer plant ysgol uwchradd.

- Cadarnhawyd fod hybu'r Gymraeg wedi cael lle blaenllaw gan yr adran yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Bu un aelod o staff, Stephen Wood, yn llwyddiannus yng Ngwobrau Coffa Dafydd Orwig eleni am ei lwyddiant wrth ddysgu'r Gymraeg. Yn ogystal â defnyddio'r iaith ar lafar o fewn yr adran, mae llawr o adnoddau ysgrifenedig a fideos wedi cael eu datblygu er mwyn hyfforddi staff ar amryw o nodweddion pwysig yr adran. Hefyd, mae'r adran yn y broses o drosleisio adnoddau ar gyfer defnydd rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn darparu gwasanaeth dwyieithog effeithiol.

- Trafodwyd gwaith effeithiol y Gwasanaeth Ieuenctid, a nodwyd fod sawl cynllun megis garddio, coginio a gweithdai graffiti, bellach ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a bod adborth y plant 16-25 oed oedd wedi cymryd rhan mewn gweithdai, ar y cyd gyda chynllun 'FRIENDS' yn dweud eu bod wedi mwynhau'r ffaith eu bod wedi gallu cymryd rhan yn y Gymraeg gan eu bod yn teimlo ei fod yn fuddiol i'w datblygiad personol.

- Diweddarwyd y pwyllgor ar Fframwaith Gweithgareddau a Chwarae i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Bellach mae 24 o ddarparwyr gweithgareddau yn gallu gwneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymhellach i hyn, roedd dros 50 o sefydliadau wedi dod ynghyd i gyflwyno gweithgareddau llesiant o fewn wythnos llesiant a gynhaliwyd yn ddiweddar. Defnyddiwyd y dechnoleg ddiweddaraf drwy blatfform 'Haia' er mwyn cynnal yr holl ddigwyddiadau yn Hybrid a drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn dilyn y llwyddiant yma, mae Ap newydd yn cael ei ddatblygu - 'Ai Di' er mwyn helpu i gysylltu

plant a gofalwyr. Bydd modd ei ddefnyddio i gysylltu ag ysgolion yn ogystal â defnydd cymunedol.

- Sicrhawyd yr aelodau fod gofynion ieithyddol yn cael eu cynnwys ym mhob cytundeb trydydd parti pan fo'n addas a bod y broses yma yn cael ei fonitro yn rheolaidd rhwng Rheolwr Gwasanaeth a Rheolwr ar ran y darparwr.

  Mynegwyd pryder am broblemau recriwtio a welwyd yn ddiweddar, yn debyg i rai adrannau eraill y cyngor. Nodiwyd ei fod yn her i recriwtio pobl sydd yn meddu a sgiliau arbenigol cymwysedig yn ogystal â sgiliau Cymraeg addas ar adegau. Mae'r adran yn edrych ar ffyrdd o oresgyn y problemau yn ogystal â darparu cefnogaeth i aelodau staff sy'n dymuno datblygu eu sgiliau ieithyddol Cymraeg.

- Ychwanegwyd fod heriau yn wynebu'r adran wrth gyd-weithio gyda'r partneriaid oherwydd nad ydi'r cyfleusterau ar gael o hyd er mwyn gallu cyfathrebu yn Gymraeg yn effeithiol. Eglurwyd nad ydi pawb yn cynnig darpariaeth cyfieithu ar y pryd.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau'r pwyllgor holi cwestiynau:

- Mynegwyd balchder yng ngwasanaeth cyfieithu Cyngor Gwynedd a thrafodwyd yr angen am brotocol i fynnu fod y Gymraeg yn cael ei ddefnyddio wrth gydweithio gyda phartneriaid ac i'w hysbysu os yw eu gwasanaethau Cymraeg yn annigonol.

- Gwnaed sylw fod cyfleusterau yn cael eu gwastraffu os nad ydi pobl yn eu defnyddio. Atgoffwyd pawb o'r angen i ddefnyddio'r iaith Gymraeg os ydynt yn gallu er mwyn ei chynnal a helpu eraill i ddysgu.

- Clodforwyd gwaith yr adran i ddatblygu sawl ap defnyddiol newydd ar gyfer pobl o bob oed. Holiwyd os oes modd monitro'r defnydd o'r ap-iau i weld faint o ddefnydd Cymraeg a geir ohonynt.

Mewn ymateb, nododd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu:

- Bod modd atgoffa staff o'r polisi iaith cyfredol a beth yw eu cyfrifoldebau ynghylch hysbysu partneriaid am fethiannau ieithyddol. Ymhelaethwyd fod modd creu protocol newydd fel trafodwyd yn gynharach er mwyn i staff adael i swyddogion yr adran wybod fod methiant ieithyddol wedi digwydd er mwyn gallu cysylltu â'r partneriaid, y Comisiynydd Iaith a'r Llywodraeth pe bai angen.

Mewn ymateb, nododd yr Ymgynghorydd Iaith:

- Gan fod y mater yma wedi codi amryw o weithiau yn ystod y cyfarfod fod modd ystyried ychwanegu protocol fel addasiad i'r polisi iaith newydd, a hynny cyn ei gyflwyno i aelodau'r cabinet, os bydd y pwyllgor yn cytuno i wneud hynny. Mynegwyd ei fod yn rhywbeth cadarnhaol bod gan swyddogion gyfrifoldeb i hysbysu ac ymateb i unrhyw fethiant ieithyddol oherwydd bod ganddyn nhw gyswllt uniongyrchol a'r partner a bod hynny yn atgyfnerthu'r polisi iaith.

Mewn ymateb, nododd Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd:

- Bod angen sicrhau fod partneriaid ac asiantaethau eraill yn rhanbarthol a chenedlaethol yn gwella eu safonau ieithyddol oherwydd bod y defnydd o'r Gymraeg yn eilradd mewn sawl cyfarfod. Cytunwyd fod angen defnyddio ein dull o weithredu'r Gymraeg fel enghraifft i asiantaethau eraill.

- Ymatebwyd nad oes modd i fonitro'r defnydd o'r Gymraeg mewn amryw o'r ap-iau a ddatblygwyd hyd yma gan eu bod yn ymdrin â gwybodaeth bersonol unigolion. Er hyn,

gobeithiwyd gallu monitro faint o'r Gymraeg a ddefnyddir ar yr Ap Gwobr Dug Caeredin.

**PENDERFYNWYD**

- Derbyn yr adroddiad gan nodi sylwadau a dderbyniwyd.

10. **POLISI IAITH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Iaith, a thynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Dechreuwyd drwy egluro bod yr adran wedi dechrau edrych i mewn i adolygiadau posibl i'r polisi iaith yn 2020, yn dilyn newidiadau mawr i'r modd roedd y Cyngor yn gweithredu wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

- Eglurwyd bod yr angen wedi codi i ddarparu arweiniad clir i staff am bynciau penodol megis sut mae'r Gymraeg yn cael ei ddefnyddio drwy systemau TG y Cyngor.

- Manylwyd ar y diwygiadau arfaethedig i'r polisi megis:

    - Egwyddorion cyffredinol ar ddechrau pob adran
    - Newidiadau sylweddol i Adran 5 (Gwasanaethau digidol – gwefan, ap-iau a hunanwasanaeth) i egluro'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol systemau technolegol.
    - Ychwanegu cymal newydd i Adran 6 (Arwyddion) er mwyn adlewyrchu ymrwymiad y cyngor i brosiect enwau lleoedd ac hyrwyddo enau Cymraeg o enwau lleoedd.
    - Newidiadau sylweddol i Adran 12 (hysbysebu swyddi a'r broses recriwtio).
    - Cael sicrwydd o bwy sydd yn atebol i'r polisi yn ogystal â chyfrifoldebau Aelodau Etholedig ac Aelodau'r Pwyllgor Iaith o dan Adran 15 (Atebolrwydd).

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau'r pwyllgor holi cwestiynau:

- Gofynnwyd a ystyriwyd cynnwys geiriad addas mewn amryw o adrannau'r polisi i sicrhau fod y Cyngor yn gwarchod canran siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau, yn ogystal â chynnal gwasanaethau Cymraeg ar gyfer y siaradwyr.

- Gofynnwyd a ystyriwyd yr angen i holi un cwestiwn mewn cyfarfodydd recriwtio'r Cyngor drwy gyfrwng Saesneg.

- Holwyd a oedd angen cynnwys rhywbeth a oedd yn nodi'r angen am sgiliau iaith Cymraeg i isgontractwyr sydd yn cyd-weithio gyda'r Cyngor ar amrywiol brosiectau.

- Tynnwyd sylw bod aelodau etholedig yn cael eu rhwymo gan y Cod Ymddygiad ac felly bod angen ystyried a ydi'r polisi iaith yn cydnabod hyn.

- Cwestiynwyd os oedd unrhyw oblygiadau i aelodau o staff sydd angen derbyn hyfforddiant i gyrraedd dynodiad iaith eu swydd ond wedi methu mynychu'r sesiynau hyfforddiant hynny.

- Gofynnwyd a'i dyma'r tro olaf i gynnig newidiadau ar y polisi iaith.

Mewn ymateb, nododd yr Ymgynghorydd Iaith:

- Bod modd ystyried y pwynt am warchod canran o siaradwyr Cymraeg o fewn cymunedau.

Ystyrir safonau iaith is-gontractwyr sydd yn cydweithio â'r cyngor mewn adran arbennig o'r polisi iaith, ond y gellir ail-edrych ar eiriad yr adran er mwyn sicrhau fod hyn yn cael ei amlygu.

- Cadarnhawyd nad oes goblygiadau os ydi staff yn methu mynychu hyfforddiant iaith Gymraeg i gyrraedd eu dynodiad iaith. Er hyn, mae unigolion sydd ddim yn cyrraedd eu dynodiad iaith yn cael eu monitro yn gyson er mwyn gweld pa fath o hyfforddiant sydd o fudd iddynt er mwyn iddynt lwyddo i feithrin sgiliau ieithyddol Cymraeg.

Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith:

- Bydd yr awgrymiadau am newidiadau yn cael eu ystyried cyn cyflwyno'r drafft polisi iaith i'r Cabinet. Bydd newidiadau gan penaethiaid adran hefyd yn cael eu ystyried. Os bydd y Cabinet yn cymeradwyo'r drafft, yna bydd yn mynd o flaen y Cyngor Llawn ble bydd cyfle i gynnig unrhyw welliannau.

**PENDERFYNWYD**

- Derbyn yr adroddiad ddrafft gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd a chymeradwyo symud ymlaen i gyflwyno'r Polisi – gydag addasiadau priodol – i Gabinet y Cyngor fel y cam nesaf i'w gymeradwyo'n swyddogol.

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:00yb a gorffennodd am 12:15yp.

____________________________________

**CADEIRYDD**